

# LLANGEFNI



Cerflun Syr Kyffin Williams gan David Williams-Ellis, sydd wrth y fynedfa i Oriol Môn. Delwedd © Oriol Môn.

**Cyrraedd:** Mae Bws 32 (Llangefni/Llannerch-y-Medd/Amlwch) yn stopio yn Oriol Môn. Parciwch yn Oriol Môn (cod post LL77 7TQ).

## LLWYBR A (5.1 km/3.2 milltir):


1. Cerddwch yn ôl allan i'r B5111 a chroesi'r ffordd. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i fyny'r bryn nes i chi gyrraedd grŵp o adeiladau ar eich chwith. Trowch oddi ar y brif ffordd a dilynwch y lôn.
2. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd, ar drac culach. Parhewch heibio'r fynedfa i Fferm Penlan ac i lawr ochr y bryn i'r bythynnod. Sylwch, mae hwn yn drac i lawr sy'n gymedrol o serth.

3. Trowch i'r dde a dilyn llwybr Lôn Las Cefni o dan y bont reilffordd ac ochr yn ochr â dolydd nes i chi ddod allan yng nghronfa ddŵr Llyn Cefni. Ewch yn ôl yr un ffordd i'r bythynnod.
4. Dilynwch llwybr Lôn Las Cefni drwy goetiroedd Dingle. Cerddwch drwy'r maes parcio tuag at Teras Stryd yr Eglwys (B5110).
5. Trowch i'r chwith a dilynwch Teras Stryd yr Eglwys. Cymerwch y fforc chwith wrth y gyffordd a dilynwch y ffordd i fyny'r bryn gan gyrraedd Oriol Môn, lle gallwch weld Casgliad Kyffin Williams.

**Nodiadau'r llwybr:** Byddwch yn ymwybodol bod llwybr Lôn Las Cefni yn cael ei rannu gyda beicwyr. Mae'r rhan fwyaf o llwybr Lôn Las Cefni yn gadarn o dan droed ond gall rhannau eraill fod yn anwastad neu'n rhydd.

**LLWYBR B:** Am llwybr byrrach (3.1 km/1.9 milltir) neidiwch dros gam 3 a throi i'r chwith wrth y bythynnod, tuag at Llangefni.

**Am dro hirach** (6.8 km/4.2 milltir, heb ei fapio), trowch i'r dde o Oriol Môn a dilynwch y B5111 drwy Rhosmeirch, i faes parcio coedwig Cefni. Trowch i'r chwith, gan ddilyn trac y goedwig i'r Gronfa ddŵr. Dilynwch llwybr Lôn Las Cefni tuag at Llangefni, cyn dilyn y B5110/B5111 yn ôl i Oriol Môn.



# Map cerdded Kyffin Williams

Treuliodd Syr Kyffin Williams lawer o'i yrfa yn creu gweithiau celf ac fe wnaeth ddarlunio tirwedd ei famwlad, Ynys Môn. Mae Oriol Môn a Living Streets Cymru wedi ffurfio partneriaeth i nodi tair taith gerdded mewn lleoliadau sy'n cael sylw mewn gwaith gan Kyffin.

Mae taith gerdded Llangefni yn cychwyn yn Oriol Môn ble ellir gweld enghreifftiau o waith Kyffin Williams.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan [www.orielmon.org/](http://www.orielmon.org/).

**CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND**

Ariannwyd y prosiect hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Mae Living Streets Cymru yn rhan o elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Ewch i [www.livingstreets.org.uk](http://www.livingstreets.org.uk)

Delwedd clawr. © John Smith

Created by Pindar Creative. [www.pindarcreative.co.uk](http://www.pindarcreative.co.uk)

# Y TEITHIAU CERDDED

Rydym wedi nodi tair taith o ddiddordeb, gan gynnwys lleoliadau arfordirol a chefn gwlad.

**LLANGEFNI:** Llangefni oedd man geni Kyffin Williams ac mae'n gartref i Oriol Môn, cartref i Gasgliad Kyffin Williams.

Mae'r daith gerdded gylchol hon yn cychwyn yn Oriol Môn ac ar hyd llwybr Lôn Las Cefni tuag at Gronfa dd r Llyn Cefni. Mae'r daith yn ôl yn mynd drwy warchodfa natur Dingle.

**BAE TREARDUR:** Mynychodd Kyffin Williams yr ysgol breswyl, 'Treaddur House School' yma yn blentyn ifanc a chafodd ei ddenu yma dro ar ôl tro gan yr arfordir dramatig.

Mae dau llwybr yma yn dilyn Llwybr yr Arfordir, y ddau yn dechrau yn y prif faes parcio ar Lôn Sant Ffraid.

**PWLLFANOGL:** Pwllfanogl, ar Afon Menai, oedd cartref Kyffin Williams am dros 30 mlynedd. Dyma leoliad ei stiwdio a chrëodd lawer o weithiau yn cynnwys yr ardal leol. Mae Pwllfanogl yn lle tawel gyda golygfeydd o Afon Menai, tuag at Bont Britannia ac Eryri.

Mae dwy daith gerdded i Bwllfanogl, gan ddechrau yng Ngorsaf Llanfairpwll neu ar olygfannau Afon Menai.

**Sylwer:** Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y llwybrau hyn yn ddiogel ac yn hygyrch, fodd bynnag, mae pob gweithgaredd awyr agored yn golygu rhywfaint o risg.

Nid yw Oriol Môn a Living Streets yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddamweiniau neu anaf sy'n deillio o ddilyn y llwybrau hyn.

# KYFFIN WILLIAMS

Ganed Syr Kyffin Williams (1918-2006) yn Llangefni, Ynys Môn a threuliodd ei flynnyddoedd diweddarach yn byw ac yn gweithio ym Mhwllfanogl. Mae'n cael ei ystyried yn eang yn un o artistiaid pwysicaf Cymru yn yr 20fed ganrif.

Gweithiodd Kyffin mewn amryw o gyfryngau ond y darnau mwyaf adnabyddus yw ei baentiadau olew tirwedd mawr o dirweddau garw Cymru, gan gynnwys llawer o Ynys Môn. Roedd yn aml yn addysgu pwysigrwydd braslunio a pheintio yn yr awyr agored. Mae ei waith yn darlunio gwylltineb y tirweddau yr ymwelodd â nhw, gan ddarlunio moroedd stormus a thywydd gwael yn aml.



Hunanbortread. © Oriol Môn.

# CANLLAWIAU CERDDED

Yn gyffredinol, mae'r llwybrau'n hawdd i'w cerdded a'u dilyn, ond defnyddiwch eich barn eich hun a dilynwch y canllawiau hyn:

- Gwisgwch esgidiau addas ar gyfer arwynebau anwastad a gwlyb.
- Gwiriwch y tywydd a gwisgwch ddillad addas.
- Cadwch at y palmant lle bynnag y bo modd. Os oes angen i chi gerdded yn y ffordd, ceisiwch wynebu traffig sy'n dod i'ch cyfarfoda cherdedd ar y tu allan i'r tro.
- Gwiriwch gyfyngiadau parcio ac amserlenni trafniadaeth gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.traveline.cymru](http://www.traveline.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am Llwybr Arfordir Ynys Môn ewch i: [www.visitanglesey.co.uk](http://www.visitanglesey.co.uk)

# BAE TREARDDUR



Storm yn Nhrearddur. olew ar gynfas, 1987. © Oriol Môn

**Cyrraedd:** Mae sawl bws yn stopio yn Lôn Sant Ffraid, yn union y tu ôl i'r maes parcio. Parciwch yn y maes parcio (cod post LL65 2YR).

## LLWYBR A – I'r gogledd tuag at y tŷ amlwg yng Nghraig-y-môr (2.6 km/1.6 milltir):

1. Cerddwch drwy'r maes parcio tuag at bremenâd y traeth, gan ei ddilyn i'r dde.
2. Trowch i'r chwith yn Lôn Isallt a dilynwch y ffordd ar hyd yr arfordir. Bydd angen i chi groesi'r ffordd lle mae'r palmant ar ochr yr arfordir yn diflannu.

3. Trowch i'r chwith a dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir ar hyd y trac tuag at dŷ Craig-y-Môr.
4. Ewch yn ôl yr un ffordd i'r maes parcio.

**Nodiadau'r llwybr:** Gallwch barhau i gerdded ymhellach tua'r gorllewin ar hyd Llwybr yr Arfordir ond nid oes palmant na llwybr troed y tu hwnt i'r pwynt hwn.

## LLWYBR B – I'r de ar hyd Ravenspoint Road (2.3 km/1.4 milltir):

1. Cerddwch drwy'r maes parcio tuag at bremenâd y traeth, gan ei ddilyn i'r chwith.
2. Trowch i'r dde i Ravenspoint Road a'i ddilyn ar hyd yr arfordir, heibio i gildraethau Porth Diana a Phorth Castell, nes ei fod yn troi i'r chwith ar ddiwedd y penrhyn.
3. Ewch yn ôl yr un ffordd i'r maes parcio.

**Nodiadau'r llwybr:** Mae rhai rhannau lle mae'r palmant yn diflannu ar hyd Ravenspoint Road – cymerwch ofal ar y pwyntiau hyn. Mae llwybrau troed caniatol o amgylch y penrhynion sy'n cynnig golygfeydd deniadol ond sy'n anwastad iawn o dan droed ac sy'n cynnwys grisiau.



# PWLLFANOGL



Pwllfanogl. inc ar bapur. © Oriol Môn

**Cyrraedd:** Lleolir gorsaf Llanfairpwll oddi ar yr A5, i'r de-orllewin o'r pentref. Mae sawl bws yn gwasanaethu'r A5 - gofynnwch am arhosfan yr Orsaf (Llwybr A) neu arhosfan Rhyd Menai (Llwybr B – sydd wedi'i leoli 0.9 km/0.5 milltir i'r dwyrain ym Mhorthaethwy). Parciwch yn Y Gors (cod post LL61 5TX) ar gyfer Llwybr A neu ar safbwyntiau Afon Menai ar gyfer Llwybr B.

## LLWYBR A – O orsaf Llanfairpwllgwyngyll (2.9 km/1.8 milltir):

1. Trowch i'r dde o'r orsaf a dilyn yr A5 tuag at Borthaethwy.
2. Ar ôl 120 metr/140 llath, trowch i Crossing Terrace (chwiliwch am arwyddion ar gyfer y groesfan

reilffordd), a chroesi'r rheilffordd. Parhewch ar hyd Heol yr Orsaf.

3. Wrth y gyffordd, croeswch yr A4080 Ffordd Brynsiencyn, trowch i'r dde a dilynwch y palmant am 180 metr/0.1 milltir.
4. Trowch i'r chwith i'r lôn ben marw wedi'i marcio ag arwydd Llwybr Arfordirol. Dilynwch y lôn drwy'r coetir i'w diwedd, gan basio tŷ a stiwdio Kyffin ar eich chwith. Ailweithredu eich camau.

**Nodiadau llwybr:** Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r groesfan reilffordd i groesi'r rheilffordd. Mae Ffordd yr Orsaf a Lon Pwllfanogl yn lonydd tawel ond nid oes ganddynt balmentydd.

## LLWYBR B – O olygfannau'r A5 (4.9 km/3.1 milltir):

1. Croeswch y ffordd wrth feysydd parcio'r olygfan a dilynwch yr A5 i Lanfairpwllgwyngyll.
2. Croeswch y ffordd yn yr ysgol gynradd a pharhau nes i chi gyrraedd Crossing Terrace ar eich chwith. Yma, dilynwch gamau 2 i 4 o Lwybr

**Nodiadau llwybr:** Mae Llwybr yr Arfordir yn darparu llwybr amgen, ond mae rhannau'n anwastad o dan droed, yn cynnwys grisiau a gatiâu, ac yn dioddef llifogydd ar lanw uchel. Gallwch barhau i'r dwyrain ar hyd yr A5 i Borthaethwy ar gyfer teithiau cerdded ar y glannau.

